

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol  
(Cymru): Cynllun Llesiant Lleol: Cyfraniad  
Cyngor Dinas Bangor (Medi 2021)**



Adroddiad ar y cynnydd a wnaed i gyflawni'r amcanion lleol

<b>Amcan Llesiant Rhif 1 – Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hirdymor</b>	
	<b>Cyfraniad Cyngor Dinas Bangor</b>
Yr iaith Gymraeg	Mae'r Gymraeg wrth galon pob dim mae'r Cyngor yn ei wneud. Mae pob cyfarfod yn ddwyieithog, a chyhoeddi yr holl cofnodion a dogfennau'r Cyngor yn ddwyieithog. Mae gan y Cyngor <a href="#">Gynllun Iaith Cymraeg</a> ac yn ymfalchïo mai Bangor ydy'r ddinas Cymreicaf yn y byd, yn seiliedig ar y gyfran o siaradwyr Cymraeg. Ymhellach, mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Menter Iaith Bangor i hyrwyddo defnydd y Gymraeg ledled y ddinas, i drefnu digwyddiadau megis Gorymdaith Dydd Gŵyl Dewi, ac i annog pobl i dderbyn cyfleoedd i ddysgu Cymraeg.
Cartrefi ar gyfer pobl lleol	Mae creu swyddi lleol a sicrhau fod pobl lleol yn medru byw ym Mangor yn gyfrifoldeb/blaenoriaeth Cyngor Gwynedd ac yn derbyn cefnogaeth lawn Cyngor y Ddinas. Mae Cyngor y Ddinas yn gwrthwynebu Tai ambreswyliaeth (HMOs) oherwydd eu bod yn lleihau argaeledd cartrefi priodol ar gyfer teuluoedd lleol, er enghraifft. Pan yn ystyried ceisiadau cynllunio, mae Cyngor y Ddinas yn ymwybodol am yr angen i flaenoriaethu cartrefi ar gyfer pobl lleol, ac yn cefnogi pob ymdrech i adeiladau cartrefi newydd, gwyrdd a fforddiadwy ar gyfer pobl lleol i aros ym Mangor.
Effaith tldi ar lesiant ein cymunedau	Mae gan Bangor nifer o ardaloedd difreintiedig a mae tua 30% of blant Bangor yn byw mewn tldi. Mae cymunedau sydd yn byw mewn tldi yn cael eu effeithio mewn nifer o ffyrdd, a mae'r Cyngor yn ymwybodol am yr angen i helpu a chefnogi'r cymunedau yma gymaint a phosib. Yn ystod pandemig Covid-19, sefydlodd y Cyngor y <a href="#">pwyllgor cefnogaeth Covid-19</a> yn gyflym. Mae'r pwyllgor yn parhau i gyfarfod yn fisol, ac yn darparu cefnogaeth ariannol i fanciau bwyd Bangor sydd yn rhoi help a chefnogaeth i'r rheini mewn angen mwyaf a'r rhai bregus.
Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau	Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sefydlu dinas werdd ac yn cymryd ei ymrwymïadau byd-eang o ddifri: datganwyd <a href="#">argyfwng hinsawdd</a> gan y Cyngor yn mis Ionawr 2020. Mae'r Cyngor yn llwyr cefnogi'r statws ' <a href="#">Cymunedau Di-Blastig</a> ' a roddwyd i Fangor yn mis Mai 2021, y ddinas cyntaf yng Nghymru i dderbyn y

	<p>statws. Mae hyn yn dilyn <a href="#">penderfyniad y Cyngor</a> ar weithio tuag at Bangor di-blastig yn mis Mehefin 2018. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio gyda Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru ar gynnis 'Datgarboneiddio Bangor', yn edrych ar sut i leihau tanwyddau ffosil trwy ddefnyddio ymagweddau newydd i insiwleiddio tai ac annog mwy o bobl i ddefnyddio teithio llesol ac e-beiciau/ceir. Ymhellach, mae'r Cyngor yn llwyr cefnogi y prosiect amddiffynfeydd môr ac adfywio Hirael, ac yn llwyr cydnabod yr angen i warchod ardaloedd arfordirol Bangor rhag effeithiau newid hinsawdd.</p>
<p><b>Amcan Llesiant Rhif 2 – Trigolion sy'n iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da</b></p>	
<p>Iechyd a gofal oedolion</p>	<p>Mae iechyd a gofal oedolion yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod ei hasedau, megis caeau Ashley Jones a Pier Garth Bangor, yn bwysig iawn i iechyd corfforol a meddyliol pobl o bob oedran. Roedd y Pier er enghraifft yn bwysig iawn i nifer o bobl yn ystod pandemig Covid-19 yn 2020, lle saff ar gyfer pobl i gerdded, gwneud ymarfer corff a chael peth heddi a thawelwch. Mae gan tlodi bwyd effaith difrifol ar iechyd a llesiant pobl, a mae'r Cyngor yn cydnabod bod cefnogi banciau bwyd trwy'r pwyllgor cefnogi Covid-19 yn parhau i fod yn bwysig. Ymhellach, mae'r Cyngor yn cefnogi pob ymdrech i sicrhau fod pobl yn byw bywydau iachach, ac yn hyrwyddo cyfleoedd yn aml i gymryd rhan mewn chwaraeon, cymryd mantais o'r ystod o llwybrau cerdded cyhoeddus o fewn ac o amgylch Bangor, a datblygu'r cynnig teithio llesol ym Mangor.</p>
<p>Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc ym Mangor</p>	<p>Fel yr uchod, mae iechyd a lles plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Mae'r Cyngor yn gweithio'n rheolaidd gydag ysgolion Bangor ar amryw o gynlluniau a phrosiectau e.e. sefydlu cysylltiadau rhwng pobl ifanc Bangor, Gwynedd, a phobl ifanc 'Bangors' Gogledd Iwerddon a'r UDA, ac annog plant ysgol i gymryd rhan yn y gystadleuaeth 'Bwydwch Bwystfil y Fenai' ar y Pier. Mae'r Cyngor yn llwyr cefnogi pob ymdrech i gynnwys plant a phobl ifanc mewn cyfleoedd chwaraeon, gwirfoddoli a chyfleoedd dysgu mewn amryw o fannau ac amgylcheddau. Ymhellach, mae'r Cyngor yn llwyr cydnabod pwysigrwydd manau gwyrdd a parciau chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc. Y Cyngor sydd yn cynnal y man chwarae i blant ger Storiel, ac yn gweithio gyda cymunedau e.e. Maestryfan i sicrhau eu bod yn medru ymgeisio am arian o'r Loteri a gwella eu chyfleusterau parc chwarae lleol.</p>